COVID-19 CYTUNDEB RHWNG YR YSGOL A'R CARTREF

Ysgol Gymraeg Brynsierfel

Mae'r cytundeb hwn yn ffurfio rhan o risg asesiad yr ysgol wrth i'n disgyblion ddychwelyd yn raddol i'r ysgol.

<u>SYMTOMAU COVID-19</u>: Gall blant ddal Coronafeirws (COVID-19), ond maent yn llai tebygol o'i ddal nag oedolion a fel arfer mae'n llai difrifol iddynt.

Beth i wneud os oes gan eich plentyn symtomau Coronafeirws:

Prif symtomau coronafeirws yw:

- **Gwres uchel;**
- **Peswch newydd,parhaus-mae hyn yn golygu peswch llawer,am fwy nag awr, am 3 neu fwy o achlysuron o fewn 24 awr;**
- **Colli neu newid sylweddol i'r synhwyrau arogli neu flasu- mae hyn yn golygu ni allant arogli na flasu unrhywbeth, neu fod pethau'n arogli neu'n flasu'n wahanol i'r arfer.**

Defnyddiwch y gwasanaeth Coronafeirws arlein os mae'ch plentyn yn 5 mlwydd oed neu'n fwy. Galwch 111 os mae'ch plentyn o dan 5.

<u>COVID-19 PRIF NEGESEUON O RAN DIOGELWCH</u>:

- **Arhoswch adref cymaint â phosibl;**
- **Gweithiwch o adref os allwch chi;**
- **Ceisiwch gyfyngu cysylltiad gyda phobl eraill;**
- **Cadwch eich pellter wrth fynd allan (2 fedr lle y bo'n bosibl);**
- **Golchwch eich dwylo'n rheolaidd;**
- **Peidiwch â gadael y tŷ os oes gynnoch chi neu aelod o'ch cartref symtomau.**

- Darllenwch y Cytundeb Rhwng yr Ysgol a'r Cartref ganlynol yn ofalus gan arwyddo'r adrannau ar gyfer rhiant a disgybl. (Gall Flwyddyn 2 i fyny arwyddo drosto'u hunain). Diolch.

Ysgol Gymraeg Brynsierfel Covid-19 Cytundeb Rhwng yr Ysgol a'r Cartref

Trwy anfon eich plentyn i'r ysgol yr ydym yn cymryd yn ganiataol eich bod chi'n cytuno gyda'r gytundeb hon a'ch bod chi wedi cytuno i ddilyn canllawiau'r llywodraeth ar fod yn wyliadwrus ac aros yn ddiogel.

Ysgol

Bydd yr ysgol yn gwneud ei gorau glas i:

- **Ddarparu amgylchedd sydd wedi cynnal risg asesiad fel ymateb i feirws COVID-19;**

- **Glynu at y rheolau pellhau'n gymdeithasol a amlinellwyd gan y llywodraeth cymaint ag sy'n bosibl, y tu fewn a thu allan i'r ysgol;**

- **Darparu cwricwlwm sy'n cwrdd ag anghenion lles,iechyd meddyliol a datblygiad academaidd eich plentyn;**

- **Cysylltu gyda rhieni/warchodwyr os bydd eich plentyn yn dangos symtomau COVID-19;**

- **Hysbysu chi os bydd staff neu ddisgyblion yng ngrŵp blwyddyn eich plentyn yn dangos symtomau COVID-19 oherwydd bydd hyn yn golygu y bydd angen i chi gyd hunan-ynysu am o leiaf 14 diwrnod neu nes bod y prawf yn dod nôl yn negyddol;**

- **Parhau gyda'n dull clir a chyson tuag at wobrwyo ac esbonio goblygiadau ar gyfer disgyblion fel yr amlinellir ym Mholisi Ymddygiad yr ysgol, yn ogystal â'r disgwyliadau a amlinellir yn y cytundeb hon;**

- **Cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol trwy mySchoolapp, llythyron, Trydar a gwefan yr ysgol.**

Arwyddwyd ar ran yr ysgol: Mrs.J.Davies Pennaeth

Dyddiad: 13/06/2020

Rhiant/Warchodwr

I helpu'm plentyn yn yr ysgol, yr wyf yn gwybod ac yn deall y canlynol:

- **Os bydd fy mhlentyn, neu unrhyw un yn fy nghartref, yn dangos symtomau COVID-19, ni fyddaf yn ei (h)anfon i'r ysgol, byddwn yn hunan-ynysu am 14 diwrnod fel teulu, byddaf yn sicrhau eu bod yn cael eu profi a byddaf yn ffonio'r ysgol cyn gynted â phosibl i'w hysbysu;**

- **Os bydd fy mhlentyn i, neu unrhyw blentyn arall yn y grŵp, yn dangos symtomau COVID-19 yn yr ysgol, byddaf yn casglu fy mhlentyn o'r ysgol ar unwaith;**

- **Wrth adael a chasglu fy mhlentyn, byddaf yn glynu at y rheolau pellhau'n gymdeithasol 2 fedr;**

- **Byddaf yn brydlon wrth hebrwng a chasglu fy mhlentyn oherwydd yr wyf yn deall gall beri risg i bawb petawn i'n rhy gynnar neu'n rhy hwyr;**

- **Byddaf yn sicrhau y bydd un rhiant yn unig neu'r prif warchodwr yn hebrwng ac yn casglu fy mhlentyn o'r ysgol a ni fydd gwahanol drefniadau ar gyfer hebrwng a chasglu rhwng teuluoedd/warchodwyr;**

- **Ni fydd fy mhlentyn yn dod ag unrhyw eitemau i'r ysgol gyda nhw (ar wahan i botel plastig y gellir sychu ar gyfer eu defnydd personol hwy);**

- **Yr wyf yn deall ni fydd bwyd ar gael yn yr ysgol a byddaf yn darparu pecyn bwyd a byrbryd iachus mewn bocs bwyd plastig y gellir sychu. Byddaf yn gadael y bocs bwyd ar fwrdd y tu allan i'r dosbarth pob bore;**

- **Byddaf yn atgoffa'm plentyn o'r rheolau pellhau'n gymdeithasol ond yn derbyn eu bod yn anodd i'w dilyn a deallaf y bydd hi ddim yn bosibl i'm plentyn gyflawni hyn yn llwyddiannus ar bob adeg;**

- **Byddaf yn dysgu fy mhlentyn sut i olchi ei (d)dwylo'n gywir ac yn sicrhau ei (b)fod yn gwisgo gwahanol ddillad glân a chyfforddus pob dydd sy'n addas ar gyfer amgylchedd yr ysgol;**

- **Byddaf yn atgoffa fy mhlentyn o'r bwysigrwydd "Daliwch e,Biniwch e, Lladdwch e" wrth beswch a thisian;**

- **Ni fydd gennyf yr hawl i fynd mewn i adeilad yr ysgol ar unrhyw adeg. Os bydd angen imi siarad gydag athrawes fy mhlentyn, byddaf yn cysylltu gyda'r ysgol dros y ffôn neu drwy e-bost i drefnu apwyntiad ffôn;**

- **Mae angen imi gefnogi'r staff i gyd wrth iddynt ymdrechu i greu 'amgylchedd mor ddiogel â phosibl' yn ystod yr argyfwng hwn trwy ddilyn rheolau'r ysgol a'r llywodraeth a lleihau'r risg o ledu'r Coronafeirws trwy weithred neu weithredoedd o esgeulustra a all gael effaith niweidiol ar ddiogelwch yr ysgol;**

- **Byddaf yn darparu fy manylion cyswllt mwyaf diweddar rhag ofn y bydd achos argyfwng;**

- **Os ystyrir fy mhlentyn i fod yn anniogel neu ddim yn dilyn y rheolau, yna bydd gan yr ysgol yr hawl i'w (h)anfon adref a ni fydd yn medru dychwelyd i'r ysgol nes bod hi/fe yn gallu bod yn ddiogel;**

- **Deallaf os bydd fy mhlentyn yn sâl yn yr ysgol, bydd angen ei (h)ynysu'n syth oddi wrth ddisgyblion a staff eraill. Deallaf y bydd aelod o staff sy'n gwisgo menig, ffedog a mwgwd yn aros gyda fy mhlentyn nes fy mod yn dod i'w gasglu.**

A wnewch chi sicrhau os gwelwch yn dda eich bod yn darllen pob gohebiaeth ar mySchoolapp fel eich bod yn diweddaru'ch hunan gyda'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgol ac yn ein hysbysu ar unwaith os bydd unrhyw newid i'ch manylion cyswllt.

Arwyddwyd gan Riant/Warchodwr: ……

Dyddiad: ……

Plentyn

Byddaf yn gwneud fy ngorau glas i:

- **Ddilyn y rheolau pellhau'n gymdeithasol yn y dosbarth, yn y toiledau, yn y dramwyfa ac ar y buarth;**
- **Dweud wrth oedolyn os byddaf yn teimlo'n sâl;**
- **Dim dod â phethau i fewn i'r ysgol o adref, na fynd â phethau adref o'r ysgol;**
- **Defnyddio'r offer a ddarperir yn yr ysgol yn unig;**
- **Dim cymysgu gydag unrhyw grŵp blwyddyn arall yn yr ysgol;**
- **Dod mewn ac allan o'r adeilad trwy'r fynedfa benodedig;**
- **Bod yn ofalus wrth beswch a thisian mewn i'm penelin neu hances papur-**

  " Daliwch e, Biniwch e, Lladdwch e" gan ddefnyddio'r bin sbwriel cywir ar gyfer hancesi papur;

- **Golchi fy nwylo'n rheolaidd trwy ddefnyddio sebon a dŵr am 20 eiliad/ddiheintydd llaw (bydd hyn ar gael yn yr ysgol);**
- **Ymddwyn yn dda ar bob adeg i gadw'n hunan a phawb arall yn ddiogel;**
- **Dilyn y rheolau o ran diogelwch a gwybod os na fyddaf, byddaf yn cael f'anfon adref o'r ysgol a ni fyddaf yn medru dychwelyd nes y gallaf fod yn ddiogel.**

Gwyddom y bydd hyn yn anodd i'n disgyblion lleiaf i ddeall ond byddwn yn parhau i egluro iddynt a'u hannog nhw trwy'r amser a gofynnir i chi wneud yr un peth adref os gwelwch yn dda.

Arwyddwyd gan: ……(Gall Flwyddyn 2 i fyny arwyddo)

Dyddiad: ……..